Beibl i Blant
yn cyflwyno



Samson, dyn cryf, dyn Duw

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

Cyfieithydd: Catrin Roberts

addaswyd gan: Lyn Doerksen

Stori 14 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Amser maith yn ôl, roedd dyn o'r enw Manoa yn byw yng ngwlad Israel. Doedd dim plant ganddo fe a'i wraig. Un diwrnod, daeth Angel yr Arglwydd at Mrs Manoa a dweud, "Rwyt ti'n mynd i gael babi arbennig iawn."



1

Rhannodd y newyddion da gyda'i gŵr. Gweddïodd Manoa, "O fy Arglwydd…wnei di anfon yr angel yn ôl yma. Dysga ni beth sy raid i ni ei wneud gyda'r bachgen ar ôl iddo gael ei eni."

2



Dywedodd yr Angel, "Rhaid peidio torri ei wallt, dydy e ddim i yfed diod feddwol, na bwyta rhai bwydydd arbennig. Mae Duw wedi dewis y bachgen hwn i fod yn farnwr. Fe fydd yn arweinydd i Israel."



3



Roedd pobl Dduw angen help. Roedden nhw'n anwybyddu Duw, ac roedd eu gelynion, y Philistiaid, yn eu bwlio. Ond clywodd Duw eu gweddi ac anfonodd y babi hwn i'w helpu – hwn fyddai'r dyn cryfaf yn y byd.

4

Felly cafodd y bachgen ei eni. Ei enw oedd Samson. Tyfodd y plentyn, ac roedd Duw yn ei fendithio. Dyma ysbryd yr Arglwydd yn dechrau ei sbarduno. Daeth yn gryf iawn. Un diwrnod, dyma fe'n lladd llew gyda'i ddwylo yn unig!

5

Yn nes ymlaen, blasodd Samson fêl yr oedd haid o wenyn wedi ei wneud ar ôl adeiladu nyth yng nghorff y llew.

6



Dyma fe'n creu pôs: "Daeth bwyd o'r bwytäwr; rhywbeth melys o'r un cryf."

7

Doedd neb yn gwybod yr ateb – ond rhannodd gwraig newydd Samson (un o'r Philistiaid) yr ateb gyda'i ffrindiau.

8

Gwylltiodd Samson yn fwy fyth pan wnaeth y Philistiaid roi ei wraig yn wraig i'w ffrind gorau. Roedd e am dalu nôl. Ond sut? Yn gyntaf, daliodd Samson 300 o lwynogod. Yna rhwymodd nhw wrth eu cynffonau a rhoi ffaglau yn eu cynffonau.

9

Yna, gollyngodd Samson y llwynogod yn rhydd yng nghaeau ŷd y Philistiaid!



10

Roedd y Philistiaid am dalu'r pwyth yn ôl. Gadawodd Samson iddyn nhw ei ddal a'i glymu. Roedd y Philistiaid am ei ladd.



11

Ond daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Samson. Torrodd yn rhydd o'r rhaffau. Gafaelodd mewn asgwrn gên asyn oedd heb sychu a lladdodd 1000 o'i elynion.



12

Dechreuodd y Philistiaid chwilio am Samson. Un noson, daethant o hyd iddo mewn dinas. Cafodd y giatiau eu cloi. Ond cerddodd Samson allan – yn cario'r giatiau ar ei gefn!



13

Ond dyma Samson yn siomi Duw. Roedd Duw yn gwneud Samson yn gryf, ond roedd yn rhaid iddo fod yn ufudd i Dduw.

14

Un diwrnod, rhannodd Samson gyfrinach ei gryfder gyda Delila, merch oedd yn ysbïo dros y Philistiaid.

15



Ymosododd y milwyr ar Samson yn ystafell wely Delila. Fe wnaeth Samson ymladd yn galed – ond roedd wedi colli ei gryfder. Cafodd ei ddallu gan ei elynion.

16



Yn ddall ac yn wan, gweithiodd Samson fel caethwas i'r Philistiaid. Roedden nhw'n gwneud hwyl am ben gwas Duw ac yn chwerthin arno.

17

Cynhaliodd y Philistiaid wledd. Dyma nhw'n canmol eu duw, Dagon, oedd ar ffurf pysgodyn, am roi Samson yn eu gafael.

18

Fe wnaethon nhw ddathlu yn nheml Dagon, ac yna galw ar Samson i roi sioe iddyn nhw.

19

Gadawodd y bachgen oedd yn tywys Samson iddo bwyso yn erbyn y pileri oedd yn dal to'r deml i fyny.



20

Roedd 3000 o Philistiaid ar ben y to, a llawer iawn yn y deml ei hun – roedd pawb yn chwerthin ar Samson.



21

Ond roedd gwallt Samson wedi dechrau aildyfu yn y carchar. Dyma fe'n gweddïo, "O, ARGLWYDD Dduw, gwna fi'n gryf dim ond un waith eto. Gad i mi ddial arnyn nhw am dynnu fy llygaid i!"



22

Oedd Duw am wneud Samson yn gryf eto? OEDD! Fyddai Samson yn gallu gwneud yr amhosib?



23

BYDDAI! Dyma fe'n gwthio'r pileri mawr, a syrthiodd y deml i'r llawr. Cafodd miloedd o'r Philistiaid eu lladd – a Samson hefyd!



24

Samson, dyn cryf, dyn Duw

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Barnwyr 13-16

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!